GWNEUD CYMRU'N WELEDOL.

CELFYDDYD WELEDOL YNG NGHYMRU (YN FYR)

"Proses yw Cymru. Arteffact yw Cymru a gynhyrchir gan y Cymry. Bydd y Cymry'n creu ac yn ail-greu Cymru ddydd ar ôl dydd, flwyddyn ar ôl blwyddyn, genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth, os mynnant."

Yn ôl y dyfyniad uchod gan y diweddar hanesydd o fri, yr Athro Gwyn Alf Williams, mae Cymru'n gymaint o 'syniad', o 'gymuned wedi'i dychmygu' ag ydyw o endid daearyddol neu wleidyddol. Gweithred greadigol, mewn un ystyr, yw rhoi bod iddi a chynnal ei bodolaeth. Yn ôl y dadansoddiad hwn, darn o waith celf yw Cymru ei hun.

Ar droad yr ugeinfed ganrif, ac yn debyg i nifer fawr iawn o wledydd bychain a rhanbarthau Ewrop, ceisiodd Cymru greu delwedd ohoni ei hun fel endid unigryw ac unigol. Sefydlwyd sefydliadau fel Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Genedlaethol i bwysleisio'r hunaniaeth hon. Serch hynny, er i'r genedl dderbyn rhodd o gasgliad arbennig o gelfyddyd Ffrengig, a brynwyd gan Gwendolyn a Margaret Davies, dwy ferch i ddiwydiannwr cyfoethog, ni chafodd unrhyw Oriel Gelf Genedlaethol ei hadeiladu i roi cartref i gynnyrch arlunwyr a cherflunwyr Cymru. (Dylid nodi bod y sefyllfa hon wedi cael sylw'n raddol er y 1990au, a bod cyfran lawer mwy o'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd wedi'i throi bellach yn orielau ar eu newydd wedd yn arddangos gwaith celf, gan gynnwys mwy o gelf o Gymru ochr yn ochr â'r casgliad Ewropeaidd).

Ers blynyddoedd lawer, yr ystrydeb am Gymru oedd ei bod yn genedl o feirdd a chantorion, ac mae rhywfaint o wir yn yr haeriad hwnnw. Doedd y ddwy ddisgyblaeth hyn ddim yn gofyn am hyfforddiant costus yn Academïau Llundain neu Baris, na defnyddiau a chyfarpar drud er mwyn creu'r gwaith. Ac nid oedd angen noddwyr ariannog ychwaith i dalu cyflog byw i'r artist drwy gomisiynau. O ran barddoniaeth, Cymraeg yw olynydd iaith hynafol Ynys Prydain, a siaradwyd yn helaeth ledled y wlad, gan ymgyfoethogi â geiriau Lladin yn ystod pum canrif o oresgyniad Rhufeinig, a hynny cyn dyfodiad y Saesneg oddeutu'r 6ed ganrif. Mae'r iaith Geltaidd hon yn addas iawn ar gyfer barddoni (a chanu emynau) ac yn meddu ar hen draddodiad ar ffurf farddonol sydd fel petai'n ymgorfforiad o enaid y

bobl. Y gred felly oedd bod eiconograffeg weledol o lai o bwys – cred a atgyfnerthwyd gan ddelwddrylliadau'r mudiad anghydffurfiol crefyddol a gymerodd afael yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwlad fechan yw Cymru, a'i phoblogaeth hyd yn oed heddiw'n llai na thair miliwn; ffigur pitw iawn wrth ochr y niferoedd o bobl a geir yn y rhan fwyaf o ddinasoedd mawr Tsieina. Rwy'n ymwybodol iawn o hyn, a minnau wedi bod yn ddigon ffodus i ymweld â Chongqing ac arddangos yno yn 2010. Doedd dim dinas fawr yng Nghymru y gellid ei chymharu â Dulyn yn Iwerddon, neu Glasgow a Chaeredin yn yr Alban, ac felly doedd fawr o gyfleon i astudio celf o fewn Cymru a fawr o gasglwyr celf metropolitanaidd. Câi'r rhai a allai fforddio cysegru eu hoes i gelfyddyd eu gorfodi i astudio a gweithio y tu allan i Gymru, ac i gydymffurfio ag arferion marchnad gelf Lundeinig ar y cyfan.

Cafwyd rhagdybiaeth drefedigaethol ac yn wir, hiliol, ymysg haneswyr celf Seisnig yn bennaf a awgrymai nad oedd gan y Cymry ddim dawn gynhenid ym maes y celfyddydau gweledol. Mae'r rhagfarn arbennig hon yn parhau, ac fe ddadleuwn i mai dyma'r safbwynt 'diofyn' sy'n faich arnom o hyd yn sgîl canrifoedd o agweddau 'trefedigaethol', nid wedi'i gyfeirio at y Cymry'n unig, ond hefyd wedi'i fytholi gan y Cymry eu hunain mewn sawl enghraifft, a hynny wedi'i waethygu gan agweddau sefydliadau fel Amgueddfa 'Genedlaethol' Cymru a'i harfer o 'fewnforio' cyfarwyddwyr dros y blynyddoedd. Mae haneswyr yn anghytuno ynghylch a ellid disgrifio Cymru'n gywir yn drefedigaeth i Loegr, ond yn sicr gellir dadlau bod 'meddylfryd trefedigaethol' yn bodoli, lle mae'r rhagdybiaethau hyn o israddoldeb (sy'n amlygu eu hunain mewn sawl ffordd, ond yn enwedig yn y celfyddydau gweledol) wedi cael cryn effaith dros y canrifoedd. Dylai llwyddiant arlunwyr o Gymru fel Richard Wilson (1713/14 – 1782), y sonnir amdano fel tad tirlunio 'Seisnig', a Thomas Jones (1742 – 1803) mewn oes a fu ddangos mor wallus yw'r rhagdybiaethau hyn, ond gan y treuliwyd eu gyrfaoedd o reidrwydd yn alltud o Gymru, cawsant eu dosbarthu'n aml fel arlunwyr 'Seisnig'. Ymgais yw'r traethawd byr hwn i wneud iawn am yr israddoldeb canfyddedig hwnnw, ac fe'i hysgrifennir ar adeg pan fo'r gymuned gelfyddydau gweledol yng Nghymru'n arbennig o hyderus ac atgyfodol.

Fel y ceisiaf brofi, mae Cymru lawn mor alluog i gynhyrchu artistiaid gweledol rhagorol ag ydyw i gynhyrchu beirdd a cherddorion, dim ond nad oedd y cyfleon a'r farchnad (a'r cyllid) ar gyfer celf yng

Nghymru prin yn bodoli yn y gorffennol, neu y bernid 'ansawdd' mewn celfyddyd yn bennaf gan safonau curadurol amgueddfaol a bennwyd yn rhywle arall. Ysgogwyd newid canfyddiad mawr gan y corpws o ysgrifennu 'ôl-drefedigaethol' ar hanes celf a wnaed gan Peter Lord, sydd wedi ailedrych ar y mater hwn ers rhyw bum mlynedd ar hugain bellach, gan ganolbwyntio ar yr hyn a alwyd ganddo'n 'estheteg perthnasedd' yn ei astudiaeth gynhwysfawr o ddiwylliant gweledol Cymru[i]. Mae'r agwedd hon yn ymwrthod â'r syniad mai 'celfyddyd fawr' yw'r hyn sy'n bwysig, a hynny er mwyn canolbwyntio ar y gelfyddyd sy'n berthnasol i ddiwylliant a chymdeithas Cymru ei hun. Wedi'i ysbrydoli gan y sylw a roddwyd i arlunwyr gwlad yn yr Unol Daleithiau, daeth Lord â 'chelfyddyd werin' Cymru a'i chrefftwaith a'i dylunwaith brodorol, neu 'genius loci', i ganol y llwyfan. Mae gwaith ysgrifenedig Lord yn disgyn i gategori'r heriau 'ôl-drefedigaethol' i ganon blaenorol hanes, agwedd sy'n rhannu ffrwd gyffredin yn syniadaeth diwedd yr ugeinfed ganrif, yn aml â chyswllt â'r ôl-Fodern, gan ysgrifenwyr fel yr Americanwr Thomas McEvilley, ac archwiliadau i hegemoni diwylliannol, fel 'Orientalism' gan y damcaniaethwr a'r beirniad o Balesteina, Edward Said. Enwodd Lord artistiaid yng Nghymru a gawsai eu hanwybyddu gan y traddodiad curadurol amgueddfaol Llundain-ganolog. Gan fathu'r ymadrodd 'Nid yw absenoldeb prawf yn brawf o absenoldeb', aeth ati'n eofn i ganfod 'prawf o bresenoldeb'. Darganfu artistiaid 'gwerin' neu 'arlunwyr gwlad' fel Hugh Hughes (1790 - 1863) a William Roos (1808 - 1878) a bortreadodd bobl o bwys yng Nghymru, fel pregethwyr mawr y diwygiadau anghydffurfiol. Mae'r cyfryw artistiaid bellach wedi'u derbyn i 'ganon' celfyddyd Cymru oherwydd eu perthnasedd diwylliannol yn hytrach na'u henwogrwydd neu lwyddiant yn y byd celf Llundeinig. Mae Lord hefyd yn dadlennu hanes criw hynod o artistiaid dan arweiniad Clarence Whaite a ymsefydlodd yn gymuned ym Metws-y-Coed rhwng 1844 a 1914.

Mae Thomas Jones yn artist diddorol a lwyddodd nid yn unig i greu celfyddyd a berthynai i'w hoes ym myd celf Llundain; tirluniau o'r 'Grand Tour' yn yr Eidal ac o'r darlun rhamantaidd o Gymru ei hun (enghraifft arall oedd peintiadau Turner a wnaed wrth iddo deithio Cymru), ond hefyd i ymchwilio i ambell elfen o ddeunydd penodol Gymreig. Ceir enghraifft o'r gwaith hwn, 'Y Bardd Olaf', yng nghasgliad yr Amgueddfa Genedlaethol. Mae'r peintiad yn darlunio bardd Derwyddol yn ei daflu ei hun o ben clogwyn i osgoi cael ei ddal gan y brenin Seisnig Edward 1. Dros ganrif yn ddiweddarach, ac yn

gyffredin ag Iwerddon a'r Alban, dynesodd artistiaid a llenorion yng Nghymru dechrau'r ugeinfed ganrif at y ffasiwn am 'Geltigiaeth' a enghreifftiwyd yng ngwaith y peintiwr Christopher Williams (1873 – 1934) a addasodd themâu chwedlonol o lenyddiaeth Cymru i gyhoeddi gwawr newydd i'n hymwybyddiaeth genedlaethol.

Ond beth am effaith mudiad mawr Moderniaeth Ewropeaidd ar Gelfyddyd yng Nghymru? Yn ddiddorol, ym 1908, y flwyddyn y peintiodd Picasso ddarlun chwyldroadol 'Les Demoiselles D'Avignon', peintiwyd 'Salem' gan Curnow Vosper (1866 - 1942), llun sy'n bytholi eiconograffeg y wisg genedlaethol Gymreig fel y'i canfuwyd (neu y'i crëwyd) gan Arglwyddes Llanofer yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Llun yw 'Salem' o hen wreigan, Siân Owen, yn dod i mewn i'w chapel anghydffurfiol moel yn y wlad, wedi'i gwisgo mewn het ddu uchel a siôl frethyn lliwgar. Dosbarthwyd printiau o'r peintiad hwn am ddim gyda phowdr golchi poblogaidd, a chyn hir roedd yn ddarlun a oedd yn bresennol ar furiau miloedd o gartrefi trwy Gymru. Trwy ffotograffiaeth daeth y darlun o'r 'fenyw Gymreig' yn fotiff cyson yn y ddelweddaeth gerdyn post a berthynai i Gymru. Noder nad oes delwedd gyfatebol o wisg wrywaidd.

Ond at dirlunio y dychwelwn i weld y dylanwad Ewropeaidd mewn celf Fodernaidd (Ôl-Argraffiadol yn sicr) yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Gellid dadlau bod JD Innes (1887 – 1914) o Lanelli wedi dylanwadu ar ei gyfaill llawer enwocach o Ddinbych y Pysgod, Augustus John (1878 – 1961) yn eu harbrofi gyda pheintiadau 'plein air' o dirweddau gwyllt gogledd Cymru. Roedd John yn athrylith o dynnwr llun, yn llinach Rembrandt a'r Dadeni, ond roedd ei bersonoliaeth a'i enwogrwydd yn drech na'i dalent. Byddai'n ymddangos yn aml mewn clecs a straeon papur newydd, gan arddel bywyd bohemaidd, yn gwisgo ac yn byw fel sipsi Romani ar brydiau. Cafodd lawer o blant anghyfreithlon gyda'i fodelau, amgylchiad a barodd iddo orfod cynhyrchu portreadau o bobl amlwg y dydd er mwyn ennill incwm i gynnal y llu dibynyddion hyn. Roedd ei berthynas â'r Gymru ymddangosiadol gul a sidêt, a'i ddylanwad o fewn iddi, yn gymhleth ac amwys, fel eiddo ei ffrind a'i gyd-fohemiad, y bardd Dylan Thomas. Roedd y lluniau a beintiwyd ganddo ef ac Innes (a fu farw'n ifanc o'r diciáu) yn ardal fynyddig yr Arenig yng nghyffiniau'r Bala cyn y rhyfel byd cyntaf yn *avant-garde* o'u cymharu â thirluniau Prydeinig arferol yr oes, ac wedi'u dylanwadu gan ôl-argraffiadaeth Ffrainc. Llesteiriwyd John gan ei hyfforddiant academaidd, fodd bynnag, a methodd wneud y naid i'r ffurfiau

newydd a gyflwynwyd gan Foderniaeth yr ugeinfed ganrif. Rhagwelodd y câi ei enwogrwydd ei fwrw i'r cysgod ryw ddydd gan enw ei chwaer Gwen John (1876 - 1939), arlunydd mewnsyllgar, sensitif, a fu am gyfnod byr yn fodel, cariad ac awen i'r cerflunydd o Ffrainc Rodin ond a aeth ymlaen, fel y rhagwelwyd, i ennill bri sydd wedi mynd y tu hwnt i'r bri a roddwyd i'w brawd lliwgar.

Cafwyd traddodiad di-dor o beintio tirluniau rhamantaidd yng Nghymru, gan ymwelwyr fel Graham Sutherland (1903-1980), a gyfareddwyd gan harddwch y wlad. Prif ladmerydd tirwedd Cymru, serch hynny, oedd Syr Kyffin Williams (1918 – 2006), a gynhyrchodd ddelwedd law-fer o Gymru â'i ddarluniau cyllell balet o fynyddoedd mawr tywyll Eryri. Yn ffenomen fasnachol, a'i waith mewn casgliadau yng Nghymru a Llundain, yn hollbresennol ac yn destun copïo brwd gan artistiaid iau sydd â'u llygad ar y farchnad, Kyffin, er ei alluoedd cyfyngedig, yw'r arlunydd enwocaf i Gymru ei gynhyrchu erioed. Aeth Peter Prendergast (1946 – 2007) â'r traddodiad tirlunio yn ei flaen, gan greu peintiadau lliwgar, gorfoleddus o fynegiadol, yn enwedig o chwareli segur y diwydiant llechi yn y Gogledd. Mae arlunwyr cyfoes fel Brendan Burns, ymysg eraill, yn dal ati gyda'r tirlunio haniaethol a gyflwynwyd gan Sutherland, ac yn canolbwyntio'i sylw, fel Sutherland, ar arfordir Penfro, pen pellaf penrhyn gorllewinol Cymru. Y gweddlun micro sy'n mynd â bryd Burns, wrth iddo drawsffurfio lluniadau o byllau creigiau glan y môr yn ei lyfr braslunio yn beintiadau haniaethol anferth.

Ond roedd gan Gymru dirlun gwahanol iawn hefyd, sef tirlun y pyllau glo, y gweithfeydd haearn a dur a diwydiant trwm. Yn sgîl diwydiannu gormesol cymoedd y De trwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ymlaen hyd at y 1970au gwelwyd ymateb gwahanol gan arlunwyr fel Evan Walters (1893 – 1951) o Abertawe a Vincent Evans (1894 - 1976) o Ystalyfera. Bu'r olaf yn löwr am ddeng mlynedd cyn mynd yn arlunydd. Denodd cymunedau agos cymoedd diwydiannol Cymru artistiaid fel yr alltud o Wlad Pwyl Josef Herman (1911 – 2000) a gyrhaeddodd bentref glofaol Ystradgynlais ym 1944, ac aros yno am un mlynedd ar ddeg. Daeth darluniau Herman o fywydau'r glowyr a thirwedd y cymoedd cul yn adnabyddus yn rhyngwladol a chafodd effaith ar y modd y darluniwyd y tirlun a'r cymunedau glofaol ers hynny gan artistiaid o Gymry fel George Chapman (1908 – 1993) a Valerie Ganz a anwyd yn Abertawe ym 1936.

I'r gwrthwyneb llwyr, mae edefyn o delynegu traethiadol yn nodwedd gref yng nghelfyddyd Cymru, fel y gwelir yng ngweithiau mytholegol a barddonol David Jones (1895 – 1974) a Ceri Richards (1903 – 1971). Ganwyd Jones yn Llundain, ond i deulu Cymreig, a'i ymwybyddiaeth gref o'i wreiddiau a ddaeth yn ysbrydoliaeth iddo, wrth iddo uniaethu â chwedloniaeth a hanes Cymru. Creodd weledigaeth farddonol (roedd yn fardd uchel ei barch hefyd) sy'n gwbl unigryw yng nghelfyddyd Prydain, ac ysbrydolodd artistiaid iau hefyd i weld gwerth eu diwylliant eu hunain, yn enwedig y traddodiad barddol a chwedloniaeth hen hanes Cymru. Bu'n byw am gyfnod yng Nghapel-y-Ffin, cymuned a sefydlwyd gan y cerflunydd, teipograffydd ac engrafwr Eric Gill. Dyfeisiodd Jones ei deipograffeg ei hun, gan gynhyrchu sawl darlun wedi'u creu o eiriau, sy'n peri i rywun feddwl am lawysgrifau addurnedig canoloesol.

Ganwyd Ceri Richards yn y Dynfant ger Abertawe ond roedd yn byw ac yn gweithio'n bennaf yn Llundain, lle enillodd fri rhyngwladol, gan ennill gwobr yng ngŵyl Biennale Fenis ym 1962. Roedd ei linellau llyfn, a'i ddefnydd eofn o liw, gwead a chyfansoddiad yn ei osod yn blwmp yn y traddodiad Ewropeaidd, rywle rhwng Matisse a Picasso, yn awyr iach o lais cosmopolitan ym myd celf Prydain y 40au a'r 50au. Daeth yn ddehonglwr mawr o farddoniaeth Dylan Thomas, gan ddal hanfod 'The Force that through the green fuse drives the flower'. Fel athro celf fe ysbrydolodd a chefnogi llawer o artistiaid pwysig Cymru'r dyfodol, rhai a ddychwelai i Gymru ar ôl astudio yn Llundain i greu gyrfaoedd ffyniannus yn addysgu ac yn arddangos yng Nghymru'r 1960au a'r 1970au. Erbyn hyn, roedd mwy o artistiaid ifanc yn teimlo y gallent ddychwelyd i Gymru wedi cyfnodau'n astudio yn Llundain neu dramor ac felly, ymddangosodd mwy o orielau masnachol i arddangos eu gwaith, a sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru a luniodd bolisïau a fyddai'n sicrhau bod bywyd artist yng Nghymru fymryn yn fwy cynaliadwy drwy nawdd gan y llywodraeth. Ffurfiwyd grwpiau artistiaid fel Grŵp 56 Cymru a'r Grŵp Cymreig i hyrwyddo gwaith artistiaid o Gymru.

Daeth llawer o artistiaid i Gymru o'r 1960au ymlaen, i geisio ffyrdd o fyw tawelach, gan sefydlu gyrfaoedd y dylanwadwyd arnynt mewn rhyw ffordd neu'i gilydd gan eu lleoliad. Sefydlodd y cerflunydd David Nash ei stiwdio mewn hen gapel ym Mlaenau Ffestiniog, ac mae'n enwog dros y byd am ei gerflunwaith pren amgylchfydol. Daeth Shani Rhys James o Awstralia i fyw a gweithio ym mamwlad ei thad, gan ennill cryn fri am ei pheintiadau mynegiadol damhegol.

Daeth Sue Williams, fel sawl un arall, i astudio yn Ysgol Gelf glodfawr Caerdydd, ac aros yn y brifddinas gan greu gwaith sy'n ymdrin â materion hunaniaeth a rhywioldeb y ferch mewn byd a chymdeithas sy'n newid yn gyflym. Cafodd ei henwebu am wobr bwysig Artes Mundi o £40,000, a gynhelir bob dwy flynedd yng Nghymru er 2002. Mae'r wobr, a sefydlwyd gan yr artist William Wilkins, yn "adnabod, yn cydnabod ac yn cefnogi artistiaid gweledol cyfoes sy'n ymgysylltu â'r cyflwr dynol, realiti cymdeithasol a phrofiad y mae pobl wedi byw drwyddo" ac mae'n "fwyaf adnabyddus am ei harddangosfa a'i gwobr ryngwladol a gynhelir bob dwy flynedd yng Nghaerdydd".

Llwyddodd tueddiadau rhyngwladol ym myd celf i ennill tir drwy'r gyfundrefn colegau celf a oedd yn tyfu yng Nghymru (roedd colegau celf wedi'u sefydlu yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Chaerfyrddin). Erbyn y 1960au gellid dadlau bod gwaith haniaethol Americanaidd wedi mynd braidd yn rhy ddylanwadol, a dyma'r pwynt lle penderfynodd Peter Lord roi terfyn ar ei hanes amgen o gelfyddyd yng Nghymru, gan gredu bod arbenigrwydd neu natur unigryw celf Gymreig wedi'u colli drwy ddylanwad y Colegau Celf. Ond fe ellid dadlau bod tueddiadau rhyngwladol, yn enwedig effaith ôl-Foderniaeth, yn annog ailgloriannu diwylliant gweledol mewn modd a fyddai'n fuddiol, dan ysgogiad proses o wleidyddoli celf a chymdeithas a'r ymwybyddiaeth gynyddol yng Nghymru o'i safle israddol. Mewn gwahanol rannau o'r byd gorllewinol cafwyd deffroad protest, gwrthdystio a radicaleiddio. Roedd ôl-effeithiau'r mudiad gwrth-ryfel (Fietnam), Ffeministiaeth, Cydraddoldeb hiliol, hawliau sifil ac ôl-drefedigaethol mewn sawl rhan o'r byd a fu gynt dan reolaeth Ewropeaidd i'w teimlo yng Nghymru hithau.

Ar ddechrau'r 1960au profodd dau ddigwyddiad i fod yn ysgogwyr deffroad i ddiwylliant a hunaniaeth y Cymry. Traddododd y dramodydd a'r academydd Saunders Lewis ddarlith radio dan y pennawd "Tynged yr Iaith" a rybuddiodd am dranc anochel y Gymraeg pe na weithredid ar fyrder. Symbylodd yr araith hon ymgyrch dros statws cyfreithiol, arwyddion ffyrdd Cymraeg (roedd llawer o enwau llefydd Cymraeg wedi'u disodli gan ffurfiau Saesneg cyfatebol), addysg Gymraeg a rhaglenni teledu Cymraeg. Bu boddi pentref a dyffryn Capel Celyn yn y Gogledd i greu llyn Tryweryn er mwyn darparu dŵr i Lerpwl yn Lloegr ym 1960 (a hynny er gwaethaf protestiadau) yn drobwynt yng ngwleidyddiaeth Cymru, a chrëwyd hinsawdd o wrthdystio a deffroad diwylliannol. Cofleidiodd artistiaid yng Nghymru y neges hon o brotest a gwrthdystio, rhai'n

fwy agored nag eraill. Mewn llyfr a luniais ym 1999, o'r enw 'Certain Welsh Artists', [ii] cynigiais y syniad o 'Estheteg Warchodol', hynny yw, celfyddyd sy'n gweld ei rôl fel cofiadur hunaniaeth a diwylliant, ac nid celfyddyd er ei mwyn ei hun yn unig. Ymysg y cyntaf i arddel y safbwynt hwn yn fwriadol ac mewn ymateb i Dryweryn oedd grŵp Beca, yn cynnwys y sylfaenwyr, y brodyr Paul a Peter Davies, ac Ivor Davies (dim perthynas), gyda Tim Davies, Pete Telfer a minnau'n ymuno'n ddiweddarach. Gweithredodd y grŵp dactegau celf 'guerrilla', gan ddefnyddio cyweithiau gwaith a pherfformiad, celfyddyd tir a gosodwaith fel modd i osod gwleidyddiaeth ar flaen y llwyfan celfyddydol. Mae Ivor Davies yn parhau'n rym yng nghelfyddyd Cymru, ac wedi dod â'i weithgareddau *avant-garde* cynnar yn y 1960au gyda'r mudiad 'Destruction in Art' i mewn i faes hunaniaeth a gwleidyddiaeth Cymru. Dilynodd eraill. Dechreuodd David Garner, o hen dref lofaol y Coed Duon, greu gosodweithiau addysgiadol grymus yn ymdrin â dirywiad y diwydiannau traddodiadol, ac â boddi Tryweryn, ac aeth ymlaen i greu celf oedd yn delio â materion gwleidyddol byd-eang. Yn fwy diweddar, ymunodd André Stitt, yr artist perfformiadol a anwyd ym Melffast ac sydd bellach yn Athro yng Ngholeg Celf Caerdydd, â rhengoedd y rhai a fu'n ymwneud â'r pwnc, trwy greu ffilm a wnaed gan nofwyr tanddwr yn nyfnderoedd llwyd Llyn Celyn. Yn fwy traddodiadol, a gydag adleisiau o ffurf gelfyddyd 'Geltaidd', mae'r cerflunydd John Meirion Morris wedi creu 'maquette' ar gyfer cofadail ffenicsaidd yr hoffai llawer weld ei godi ar lannau'r llyn mud. Mae Tim Davies, artist cysyniadol a gynrychiolodd Gymru yn Biennale Fenis yn 2011 wedi creu gosodwaith ingol, 'Capel Celyn' sy'n ffurfio cofadail gwahanol iawn.

Mae Mary Lloyd Jones, un o'r hen do o arlunwyr sy'n cynhyrchu tirluniau haniaethol teimladwy ('llwybrau cân' cyn-frodorol, mewn effaith), yn ymdrin â hanes a diwylliant sydd wedi gwreiddio yn haenau'r tir, ac, fel llawer o artistiaid Cymraeg eu hiaith, mae hi'n defnyddio geiriau barddoniaeth Gymraeg fel modd o fytholi defnydd yr iaith. Ymwneud â'r mater hwn wna fy ngwaith innau, mewn ymdrech i gyfleu tirlun cyforiog a diafael barddoniaeth Gymraeg, enaid noeth Cymru, yn iaith weledol y tynnu llun sy'n ymgais i ddarlunio ysbrydoliaeth, herfeiddiad, dileadau, natur frau a phalimpsestaidd yr iaith hynafol hon sy'n perthyn i hunaniaeth greiddiol. O'r to iau, mae Peter Finnemore yn ymdrin â chwestiynau hunaniaeth gan gynhyrchu ffotograffau a ffilmiau byrion sy'n llawn crebwyll idiosyncratig. Mae Carwyn Evans, a luniodd flychau adar o

gardbord i gyfateb i nifer y cartrefi gwyliau oedd i'w hadeiladu yng Ngheredigion, yn cynnig sylwadau ar broblemau allfudiad Cymry Cymraeg ifanc o gefn gwlad i'r dinasoedd. Caiff pentrefi cyfan eu troi'n gartrefi ymddeol i fewnfudwyr o Loegr yn bennaf, neu fe'u gadewir yn wag am y rhan fwyaf o'r flwyddyn i'w defnyddio fel tai gwyliau ym misoedd byr yr haf. Ym mhob pentref sy'n ildio i'r malltod hwn gwelir yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn edwino yn ei chadarnle gwledig traddodiadol. Cynrychiolydd Cymru eleni (2013) yn y Biennale yn Fenis yw Bedwyr Williams. Artist aml-ddisgyblaeth yw Williams sy'n llwyddo i greu gyrfa ryngwladol gyda'i gymysgedd idiosyncratig o gomedi/perfformiad 'standyp' a gosodwaith/ffilm a ffotograffiaeth, ond sy'n dewis parhau i fyw a gweithio yng Nghymru. Ei ysbrydoliaeth yn anad dim yw ei 'olwg' personol ei hun ar hunaniaeth.

Wrth gwrs, mae'n amhosib rhoi sylw i'r amrediad llawn o artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru mewn erthygl o'r hyd hwn. Ar hyn o bryd, mae mwy o artistiaid yn gweithio yng Nghymru nag ar unrhyw bryd yn y gorffennol, ffaith sydd yn ddiau yn wir am y rhan fwyaf o lefydd. Nid gwyddor fanwl yw mesur yr hyn sy'n bwysig mewn ymarfer cyfoes, a'r cwbl y gellir ei wneud yw tynnu sylw at rai pethau sydd, yn ôl fy nghanfyddiad i, o werth ac yn benodol berthnasol i Gymru, ac sydd hefyd wedi'u cadarnhau gan ffactorau eraill. Mae presenoldeb 'unigol' Cymru yn Biennale Fenis, er enghraifft, pan nad yw'n ymostwng i'r gwendid curadurol o ddewis 'enwau' sydd eisoes yn adnabyddus ac y mae eu hymlyniad at Gymru'n denau, a dweud y lleiaf, yn profi bod llawer o'r rhai rydw i wedi'u crybwyll wedi cael cydnabyddiaeth ddyledus gan y sefydliad celfyddydol mwyfwy hyderus yng Nghymru (Peter Finnemore, Tim Davies, Bedwyr Williams) ac mae llawer mwy o'r artistiaid a grybwyllwyd wedi ennill y Fedal Aur ym mhrif gystadleuaeth agored flynyddol Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

[i] Lord, Peter. 'The Aesthetics of Relevance' Gol. Meic Stephens, Gwasg Gomer, Llandysul, Cymru. 1992.
Lord, Peter. Cyfres "Diwylliant Gweledol Cymru". Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd. 1998-2003.
[ii] Bala, I 'Certain Welsh Artists, Custodial Aesthetics in Contemporary Art in Wales'. Seren, Pen-y-bont ar Ogwr 1999.